



## Cynhadledd Athrawon Cyflenwi

Daeth y nifer mwyaf erioed o athrawon cyflenwi o bob cwr o'r DU i'r Gynhadledd Athrawon Cyflenwi yn Birmingham ar 17 Medi, gan alw am gyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer asiantaethau cyflenwi er mwyn mynd i'r afael â'r camfanteisio a'r ymarfer diegwyddor y mae llawer o athrawon cyflenwi yn ei ddiodef.

Yn ôl pleidlais electronig amser real ymhlith yr aelodau yn y Gynhadledd, mae dros hanner (55%) o athrawon cyflenwi yn credu y byddai safonau cenedlaethol ar gyfer asiantaethau cyflenwi yn helpu i sicrhau gwell amodau cyflogaeth i athrawon cyflenwi. Dywedodd bron i draean (32%) na fyddent yn argymhell eu prif asiantaeth gyflenwi i athrawon eraill.

Dywedodd Dr Patrick Roach, Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol yr NASUWT, a oedd yn siaradwr yn y Gynhadledd, bod "hawliau cyflogaeth, urddas a llesiant gormod o athrawon cyflenwi yn cael eu tanseilio gan driniaeth gamfanteisiol ac annheg rhai asiantaethau cyflenwi, cwmnïau ymbarél ac ysgolion."

## Datganiad 2016 y Gynhadledd Athrawon Cyflenwi

Yn dilyn hyn, fe wnaeth yr NASUWT ailddatgan ei hymrwymiad i gefnogi a datblygu athrawon cyflenwi drwy gyhoeddi Datganiad 2016 y Gynhadledd Athrawon Cyflenwi (<https://www.nasuwt.org.uk/supply>).

Mae Datganiad yr NASUWT yn adnabod adnodd mor hanfodol yw athrawon, a'r cyfraniad hollbwysig maent yn ei wneud fel gweithwyr proffesiynol ymroddgar. Mae'r Datganiad yn cydnabod y dicter a'r rhwystredigaeth a deimlir gan lawer o athrawon cyflenwi, ac yn nodi eu pryderon dwys yn ogystal â phennu'r camau nesaf.

## Cod ymddygiad asiantaethau cyflenwi

Mae'r NASUWT wedi parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd â Chymdeithas Cwmnïau Staffio Proffesiynol (APSCo) a'r Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth (REC). Yn sgil gwaith yr NASUWT, mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud i God Ymddygiad yr REC, gan gynnwys:

- eglurhad o ran y derminoleg a ddefnyddir yn y ddogfen fel ei bod yn haws ei deall;
- rhagor o fanylion am Reoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003 er mwyn i asiantaethau a gweithwyr asiantaethau ddeall yn glir beth mae'n rhaid i asiantaethau ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith;
- cyfeiriad penodol at y ffaith fod asiantaethau wedi'u gwahardd rhag cyflenwi athrawon neu staff cefnogi addysgol i ysgolion yn ystod cyfnod o weithredu diwydiannol;
- cyfeiriadau mwy manwl at beth yn union y mae'n rhaid ei ddarparu i weithiwr asiantaeth pan fydd yn derbyn aseiniad;
- cyfeiriad at fonitro cyfleoedd cyfartal a rhwymedigaeth ar asiantaethau i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio gydag ysgolion i ddiogelu rhag unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon;
- rhagor o dryloywder ynghylch yr hyn gall gweithiwr asiantaeth ei ddisgwyl o ran cyfraddau cyflog.

*Parhad drosodd*

Mae'r REC hefyd wedi rhoi cadarnhad i'r Undeb y bydd yn ymchwilio i unrhyw gwynion a godir gan yr NASUWT yng nghyswllt gwaith unrhyw asiantaeth cyflogaeth sy'n aelod o'r REC.

Dylai athrawon cyflenwi sy'n aelodau o'r NASUWT gysylltu â'r Undeb ar unwaith os oes asiantaeth gyflenwi yn achosi problemau neu anawsterau iddynt.

### **Safonau Asiantaethau Cyflogaeth**

Mae'r NASUWT wedi cwrdd â chynrychiolwyr o Safonau Asiantaethau Cyflogaeth (EAS) sy'n gyfrifol am fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth â hawliau cyflogaeth, yn enwedig ar gyfer gweithwyr asiantaeth megis athrawon cyflenwi.

Cytunwyd y byddai rhagor o ddiwrnodau cadw-mewn-cysylltiad yn cael eu trefnu er mwyn trafod ymhellach bryderon yr Undeb ynglŷn ag ymarfer asiantaethau cyflenwi.

### **Anghydfod masnachol yr NASUWT**

Fel rhan o'r anghydfod masnachol cenedlaethol â'r Adran Addysg, mae'r NASUWT wedi llunio rhaglen o drafodaethau lefel uchel â swyddogion yr Adran i archwilio'r pryderon ynglŷn â chamfanteisio ar athrawon cyflenwi.

Ar agenda'r trafodaethau hyn mae cyfraddau cyflog athrawon cyflenwi, eu pensiynau a'u hawl i weithio.

Mae swyddogion yr Adran Addysg wedi mynegi i'r NASUWT eu hymrwymiad i fynd i'r afael â'r ymarfer gwael a fabwysiedir gan rai asiantaethau cyflogaeth a chwmnïau ymbarél.

### **Datganiad yr Hydref Llywodraeth San Steffan 2016**

Yn dilyn Datganiad yr Hydref a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016, ysgrifennodd yr NASUWT at gynrychiolwyr o'r Llywodraeth, gan geisio rhagor o fanylion ac eglurdeb ynghylch sut bydd y newidiadau arfaethedig i Reolau Gweithio oddi ar y Gyflogres ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yn effeithio ar weithwyr asiantaeth, ac athrawon cyflenwi yn benodol.

Cyhoeddodd y Canghellor gynigion a fyddai'n golygu mai ar y rheini sy'n talu cwmni'r gweithwyr y byddai'r gyfrifoldeb dros sicrhau bod gweithwyr oddi ar y gyflogres yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys rhai mewn ysgolion, yn talu'r dreth a'r Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cywir.

Mae trafodaethau manwl yn dal i fynd rhagddynt a bydd yr NASUWT yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w haelodau.

### **Llywodraeth Cymru**

Ym mis Gorffennaf 2016, cyflwynodd yr NASUWT ymateb i ymgynghoriad Tasglu Model Cyflenwi Cymru a oedd yn edrych ar fodolau cyflenwi gwahanol.

Wrth gyflwyno, ailadroddodd yr NASUWT ei hymrwymiad i fodel cyflenwi yng Nghymru sy'n talu athrawon cyflenwi ar gyfradd sy'n gymesur â'u profiad a'u harbenigedd, ac sy'n eu galluogi i barhau i gyfrannu at y Cynllun Pensiwn Athrawon.

Yn ychwanegol at hyn, pwysleisiwyd yr angen am fodel cyflenwi llywodraeth leol neu ganolog a fyddai'n sicrhau na fydd y gwasanaeth cyflenwi athrawon yn cael ei breifateiddio mwyach.

### **Y Byd Gwaith yn y Dyfodol**

Ym mis Rhagfyr, cyflwynodd yr NASUWT dystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Tŷ'r Cyffredin ynghylch y Byd Gwaith yn y Dyfodol.

*Parhad drosodd*

Mae Ymchwiliad Tŷ'r Cyffredin yn edrych ar y newidiadau yn natur gwaith, a statws a hawliau gweithwyr asiantaeth, unigolion hunangyflogedig a'r rheini sy'n gweithio yn yr economi 'ar-alw' ('gig economy').

Yn ei gyflwyniad, mae'r Undeb yn nodi'n glir bod pryderon sylweddol ynglŷn â chyflogaeth gweithwyr asiantaeth a rhai hunangyflogedig yn y sector addysg, a bod y pryderon hyn yn dwysáu wrth i'r gweithlu fynd yn fwy achlysurol ei natur ac yn sgil twf asiantaethau cyflenwi a chwmnïau ymbarél. Fe wnaeth yr Undeb nifer o argymhellion, gan gynnwys rheoleiddio'r farchnad asiantaethau cyflogaeth yn briodol, a bydd yn anelu i sicrhau gwelliannau dros y misoedd nesaf.

### **Gwefan Supply Advisor**

Yr NASUWT yw'r unig undeb sydd wedi cyhoeddi pecyn adnoddau a gwybodaeth cynhwysfawr o safon ar gyfer athrawon cyflenwi, a rhoi mynediad i aelodau sy'n athrawon cyflenwi at hyfforddiant a datblygu proffesiynol parhaus achrededig am ddim, a hynny drwy raglen o ddigwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae gwefan ddiweddaraf Supply Advisor nawr yn cynnwys manylion pob asiantaeth gyflenwi sydd wedi cofrestru â'r APSCo a'r REC.

Am ragor o wybodaeth, ewch i [www.supplyadvisor.co.uk](http://www.supplyadvisor.co.uk).

### **Cynhadledd Ymgynghorol i Athrawon Cyflenwi**

Cynhelir Cynhadledd Ymgynghorol yr NASUWT i Athrawon Cyflenwi ar 10 ac 11 Mawrth 2017, gan ddechrau gyda chyfarfod fforwm ymgynghorol rhwng 8:00pm a 10:00pm ar nos Wener 10 Mawrth. Bydd y brif gynhadledd ar ddydd Sadwrn 11 Mawrth, gan ddechrau am 9:30am a dod i ben am 3:30pm.

Mae'r cyfarfod fforwm ymgynghorol yn gyfarfod agored y gall holl aelodau'r NASUWT sy'n athrawon cyflenwi fod yn bresennol ynddo, a bydd cyfle ynddo i wneud y canlynol:

- trafod gwaith yr NASUWT ar ran aelodau sy'n athrawon cyflenwi;
- darparu cyngor i'r Undeb ynghylch materion polisi (fel y mae'n cael ei weithredu ar gyfer pwyllgorau ymgynghorol ar hyn o bryd);
- darparu adborth ar flaenoriaethau ymarferol (e.e. eich blaenoriaethau neu ddewisiadau cyntaf ar gyfer hyfforddiant a datblygu yn y dyfodol);
- darparu adborth ar faterion cyffredinol sy'n ymwneud â'r gwaith.

Bydd pryd nos a llety dros nos ar gael i aelodau sy'n bresennol.

Er mwyn cofrestru ar gyfer y fforwm ymgynghorol a'r gynhadledd, cysylltwch â [conferencesandevents@mail.nasuwt.org.uk](mailto:conferencesandevents@mail.nasuwt.org.uk).